OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2011 Rhif 995 (Cy.148)

ARDRETHU A PHRISIO, CYMRU

Gorchymyn Ardrethu Annomestig (Rhyddhad Ardrethi i Fusnesau Bach) (Cymru) (Diwygio) 2011

Gwnaed - - - -	*29 Mawrth 2011*
Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru - -	*30 Mawrth 2011*
Yn dod i rym - -	*22 Ebrill 2011*

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddwyd i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan adrannau 43(4B)(b), 44(9), 143(1) a 146(6) o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988(**1**) ac sydd bellach wedi eu breinio ynddynt hwy(**2**):

Enwi, cychwyn a chymhwyso

1.—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Ardrethu Annomestig (Rhyddhad Ardrethi i Fusnesau Bach) (Cymru) (Diwygio) 2011.

(2) Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 22 Ebrill 2011.

(3) Mae'r Gorchymyn hwn yn gymwys o ran Cymru.

Diwygio Gorchymyn Ardrethu Annomestig (Rhyddhad Ardrethi i Fusnesau Bach) (Cymru) 2008.

2.—(1) Mae Gorchymyn Ardrethu Annomestig (Rhyddhad Ardrethi i Fusnesau Bach) (Cymru) 2008(**3**) wedi ei ddiwygio fel a ganlyn.

(2) Yn erthygl 7(ch) yn lle "31 Mawrth 2012" rhodder "30 Medi 2012".

(3) Yn erthygl 11(d) yn lle "31 Mawrth 2012" rhodder "30 Medi 2012".

(**1**) 1988 p.41. Cafodd adran 43 ei diwygio gan adran 117 o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 ac Atodlen 13 iddi (p.14); adran 1 o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Ardrethu 1997 ac Atodlen 1 iddi (p.29); adran 127 o Ddeddf Gwasanaethau'r Post 2000 ac Atodlen 8 iddi (p.26); adrannau 1 a 3 o Ddeddf Ardrethu (Cyn Fangreoedd Amaethyddol a Siopau Gwledig) 2001 (p.14); adrannau 61, 63 a 64 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2003 (p.26); ac adran 1177 o Ddeddf y Dreth Gorfforaethau 2010 ac Atodlen 1 iddi (p.4). Mewnosodwyd adran 43(4B) gan adran 61 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2003. Cafodd adran 44 ei diwygio gan adrannau 139 a 194 o Ddeddf Llywodraeth Leol a Thai 1989 ac Atodlenni 5 a 12 iddi (p.42); gan adran 117 o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 ac Atodlen 13 iddi (p.14); a chan adran 61 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2003 (p.26).

(**2**) Breiniwyd swyddogaethau Cynulliad Cenedlaethol Cymru yng Ngweinidogion Cymru yn rhinwedd adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p.32) a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi.

(**3**) O.S. 2008/2770 (Cy.246).